## Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Equality of Opportunity Committee


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA


9 Awst 2010

Annwyl Gyfaill

Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnal ymchwiliad i **effaith polisi Llywodraeth Cymru ar hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth ar gyfer pobl anabl yng Nghymru**. Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad.

Amcan y Pwyllgor yw craffu ar effaith polisi a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hygyrchedd trafnidiaeth ar gyfer pobl anabl yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, bydd yr ymchwiliad yn ystyried:

- **Materion sy'n peri pryder penodol i bobl anabl** sy'n defnyddio, neu sydd am ddefnyddio, gwasanaethau trafnidiaeth;
- Pa mor **ddigonol yw'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol** a'i **Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb cysylltiedig** ar gyfer gwella hygyrchedd trafnidiaeth yng Nghymru;
- Effaith **canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol** fel dull o wella hygyrchedd trafnidiaeth yng Nghymru;
- Yn y meysydd y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdanynt:
    - o Polisïau sy'n anelu at **wella hygyrchedd gwasanaethau bysiau,** fel y polisi teithio rhatach a thrafnidiaeth gymunedol;
    - o Materion hygyrchedd sy'n wynebu cerddwyr, **fel y defnydd o fannau a rennir**;
    - o Hygyrchedd **gwasanaethau tacsi a cherbydau llogi preifat**
- Effaith polisi Llywodraeth Cymru ar **integreiddio gwasanaethau trafnidiaeth** mewn perthynas ag anghenion a phryderon pobl anabl

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh


Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal / Equality of Opportunity Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8148
E-bost / E-mail : equality.comm@wales.gov.uk

Mae polisi trafnidiaeth a'i effaith ar bobl anabl yn bwnc eang a chymhleth sy'n cynnwys meysydd polisi a ddatganolwyd i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru, yn ogystal â'r rheini y mae Senedd a Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt. Er enghraifft, **nid yw** hygyrchedd cerbydau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'i **ddatganoli** i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor am i'r ymchwiliad ganolbwyntio ar y camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae Aelodau'r Pwyllgor am ddatblygu dealltwriaeth o'r materion allweddol sy'n effeithio ar hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth o safbwynt pobl anabl a'r sefydliadau sy'n gyfrifol am gomisiynu, darparu a rheoli gwasanaethau trafnidiaeth yng Nghymru.
Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau isod **sy'n berthnasol i chi.**

## A. Cwestiynau ar gyfer pobl anabl

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn barn a phrofiadau pobl sydd â namau corfforol neu namau ar eu synhwyrau a phobl sydd ag anabledd dysgu.

**SYLWER:** Os ydych yn sefydliad sy'n comisiynu, yn darparu neu'n rheoli gwasanaethau trafnidiaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech ofyn i aelodau o'ch staff sy'n anabl ateb y cwestiynau a ganlyn. Mae croeso i aelodau o staff sy'n anabl anfon eu hatebion yn uniongyrchol at Glerc y Pwyllgor os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

1. Rhowch grynodeb o'ch profiadau fel teithiwr anabl.

- Pa mor hawdd yw hi i chi deithio yn lleol ac yn genedlaethol?
- Beth yw'r prif rwystrau rydych wedi'u profi wrth deithio yng Nghymru?
- Pa ffactorau sydd wedi ei gwneud yn haws i chi deithio? Er enghraifft, pa wahaniaeth y mae cardiau teithio rhatach a gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol wedi'i wneud i chi?
- A ydych wedi cael unrhyw broblemau neu brofiadau da penodol mewn perthynas â dull penodol o deithio, e.e. bysiau, coetsys, trenau, tacsis?
- Pa mor dda y mae'r gwasanaethau trafnidiaeth yn eich ardal chi wedi'u hintegreiddio (er enghraifft, a oes cysylltiadau da rhwng gwasanaethau bysiau a threnau ac a allwch barcio ger eich safle bysiau lleol neu orsaf drenau leol os oes angen?)
- Pa brofiadau rydych wedi'u cael fel unigolion anabl pan nad ydych yn teithio mewn cerbydau? Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn 'mannau a rennir', lle y mae cerddwyr, beicwyr a modurwyr yn defnyddio'r un arwynebau.
- Sut y mae eich profiadau yng Nghymru'n cymharu â'ch profiadau o deithio mewn gwledydd eraill?

2. I ba raddau rydych yn ymwybodol o'r pwerau a ddatganolwyd i Weinidogion Cymru a'r Cynulliad a allai gael effaith ar hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth yng Nghymru?

**B. Cwestiynau ar gyfer comisiynwyr, darparwyr a rheolwyr gwasanaethau trafnidiaeth**

- Pa gamau y mae eich sefydliad wedi'u cymryd i wneud gwasanaethau trafnidiaeth yn hygyrch i bobl anabl? Nodwch unrhyw fentrau rydych yn ystyried eu bod yn dangos arferion da.
- Pa gamau y mae eich sefydliad wedi'u cymryd i roi cyhoeddusrwydd i'ch gwasanaethau ar gyfer pobl anabl?
- Sut y mae eich sefydliad wedi gweithio gydag eraill i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth wedi'u hintegreiddio'n dda?
- Beth yw'r heriau mwyaf i'ch sefydliad yn y maes hwn? Er enghraifft, a oes unrhyw gamau y gallech eu cymryd i wella hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth ond na allwch eu cymryd am ryw reswm?
- Pa newidiadau i bolisi neu'r gyfraith allai helpu eich sefydliad i wneud mwy o gyfraniad i wneud gwasanaethau trafnidiaeth yn fwy hygyrch i bobl anabl?
- Pa effaith y mae Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru wedi'i chael ar hygyrchedd y gwasanaethau trafnidiaeth rydych yn ymwneud â nhw?
- Pa effaith y mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i chael ar hygyrchedd y gwasanaethau trafnidiaeth rydych yn ymwneud â nhw?

Nid oes yn rhaid i unrhyw gyflwyniadau fynd i'r afael â'r holl feysydd uchod ac mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn gwybod am berson neu sefydliad a allai fod â diddordeb yn ymchwiliad y Pwyllgor, a fyddech cystal â dangos y llythyr hwn iddynt.

Byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref 2010, felly byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi yn eich cyflwyniad a fyddech yn barod i roi tystiolaeth lafar, pe byddem yn eich gwahodd i wneud hynny.

Yn gyffredinol, byddwn yn gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig oherwydd mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi'r dystiolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor ar ein gwefan fel bod cofnod cyhoeddus ohoni. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth mewn fformat sain neu fideo. Dylid anfon unrhyw gyflwyniadau at y Clerc yn equality.comm@wales.gov.uk, neu i'r cyfeiriad uchod. Dylent gyrraedd yn ddim hwyrach na **Dydd Gwener 8 Hydref 2010.**

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i ymchwiliad/bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu’r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw’n addas i’w datgelu i’r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.



**Ann Jones AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**